



# Adroddiad Blynyddol 2021/22

# Canlyniadau

Nod Rhaglen Hwb URC yw cyflawni yn erbyn Strategaeth Gymunedol URC a'i hamcanion.

**Pobl – Darparu offer a hyfforddiant wedi'i dargedu a fydd yn galluogi pawb sy'n cymryd rhan mewn rygbi i fod y gorau y gallant fod**

**Lleoedd – Nodi y lleoliadau addysgol, clybiau URC a'r cymunedau lleol hynny lle mae budd amlwg i'w gael yn sgil datblygu rygbi**

**Chwarae - Tyfu a datblygu'r gêm mewn cymunedau wedi eu targedu yng Nghymru fel bod unigolion yn cyflawni eu potensial**

**Hybu – Darparu arlwy gynhwysol i'n holl bobl a'n cymunedau**

**Partneriaid – Cysylltu gyda a chefnogi partneriaid strategol allweddol eraill i helpu i dyfu ein holl flaenoriaethau strategol a chynyddu cyfleoedd ar gyfer rygbi ledled Cymru**



# Crynodeb 2021/22

## Pobl

**1598 o Arweinwyr Rygbi a 263 o Ddyfarnwyr L1** bellach wedi'u hyfforddi mewn sefydliadau hwb

**273 o Hyfforddwyr wedi cymhwyso** ar draws y sefydliadau hwb o TAG i lefel 2

## Lleoedd

**179 o Glybiau URC a Hybiau i Fenywod a Merched** wedi'u cysylltu â swyddogion hwb sy'n cyfateb i **82% o'r bechgyn sydd wedi'u cofrestru ac 86% o'r merched sydd wedi'u cofrestru, dan 7 oed i dan 18 oed**

Mae dros **300 o sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus** wedi'u darparu yn y gymuned i dros **25000** o hyfforddwyr sy'n gweithio gyda'r cyfranogwyr hyn.

## Chwarae

Mae **9,500 o fechgyn** wedi cymryd rhan mewn rhaglenni allgyrsiol neu rhwng ysgolion/colegau/prifysgolion

Mae **7,000 o Ferched** wedi cymryd rhan yn y cwricwlwm a **4,000** yn cymryd rhan yn allanol

## Hybu

**5 Digwyddiad Anabledd Chwe Gwlad a 75 o Wersylloedd Pasg Fit Fed Fun** wedi'u cefnogi gan swyddogion

## Partneriaid

Cyflwynwyd **3,200 o sesiynau** gan swyddogion i **14,714** o blant ysgolion cynradd



# Establishment Feedback

## Osian Griffiths – Dirprwy Bennaeth – Ysgol Gyfun Cwm Rhondda:

"Rydyn ni'n credu'n gryf yn Ysgol Gyfun Cwm Rhondda bod y rhaglen Hwb ar hyn o bryd yn sicrhau bod pobl ifanc nid yn unig yn ymgysylltu â chwaraeon ond gyda'r ysgol ac yn y pen draw, addysg. Mae'r rhaglen Hwb yn gyfrwng i ennyn diddordeb pobl ifanc o fewn eu cymunedau ysgol sy'n hanfodol os ydyn nhw yn mynd i ail-ymgysylltu ag addysg (mae hynny'n amhrisiadwy!)"

## Phil Bowen – Pennaeth Addysg Gorfforol – Dyffryn Amman:

"Rydyn ni wedi gweld niferoedd mawr yn bresennol yn y sesiynau allgyrsiol, a llawer o'r chwaraewyr hyn ddim wedi cael unrhyw fath o brofiad rygbi ar ôl Covid, sy'n wych i allu cynnig amgylchedd cynhwysol a hwyliog iddyn nhw fod yn rhan ohono. Gyda lwc, gall y math hwn o amgylchedd gael effaith gadarnhaol ar les meddyliol y disgyblion, gwella ymddygiad ac agwedd drwy natur ddisgybledig y sesiynau, a'u cael, gobeithio, i barhau i fod yn egnïol am gyfnod hirach."



# Effaith ar unigolion

Mae rygbi yn gyfrwng mewn ysgolion i sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan yn eu sefydliadau a'u cymuned

Astudiaethau achos:

**Mae merch ym Mlwyddyn 9 nad yw wedi cymryd rhan yn yr un wers Addysg Gorfforol eleni oherwydd gorbryder a phroblemau iechyd meddwl. Ar ôl misoedd ac wythnosau o weithio i geisio ei chael hi i gymryd rhan mewn gwrs, fe ddaeth hi o'r diwedd a chymryd rhan mewn gwrs rygbi ac yn sgil hynny daeth hi i hyfforddi y noson ganlynol. Roedd hyn yn llwyddiant mawr, mae hi wedi mynychu pob gwrs addysg gorfforol ers hynny, ac mae'n amlwg ei bod hi'n cael llawer o fwynhad o gymryd rhan yn y gwrsi rygbi hyn yn yr ysgol.**

**Ymunodd ffoadur o Syria â'n hysgol ym mlwyddyn 7 ac ychydig iawn o Saesneg llafar a oedd ganddo. Aeth i ddarpariaeth Rygbi Cyffwrdd amser cinio yn yr ysgol ac roedd fel pe bai'n mwynhau'n fawr. Dechreuodd ddatblygu ei sgiliau a'i ddealltwriaeth o'r gêm yn gyflym. Wrth ddod â tîm at ei gilydd ar gyfer gŵyl Rygbi B7, gofynnais iddo os oedd eisiau chwarae a rhoi cynnig arni. Fe neidiodd ar y cyfle. Fe wnaethon ni fenthycu cit llawn a bŵts iddo fe er mwyn iddo allu chwarae yn y twrnament.**





DIOLCH